

## OSBWRN WYDDEL (yn fyw yn 1293),

**Enw:** Osbwrn Wyddel  
**Plentyn:** Kenric ab Osbwrn Wyddel  
**Plentyn:** Einion ab Osbwrn Wyddel  
**Rhiant:** John fitz Thomas fitz Maurice fitz Gerald de Windsor  
**Rhyw:** Gwryw  
**Maes gweithgaredd:** Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig  
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Gwyddel (eithr Gwyddel a pheth gwaed Cymreig ynddo) a ymsefydlodd yng ngorllewin Meirionnydd, gan briodi merch perchennog Cymreig [Corsygedol](#), a dyfod yn hynafiad rhai o deuluoedd tiriog Meirionnydd - gweler e.e. yr erthyglau ar [Wyniaid](#) Glyncywarch, [Wyniaid](#) Peniarth, a [Fychaniaid](#) (Vaughan) Corsygedol. Olrheinir achau y teuluoedd hyn (ac eraill) at KENRIC AB OSBWRN; cysylltir Kenric â [Chorsygedol](#). Ceir y nodiad llawnaf ar Osbwrn gan [W. W. E. Wynne](#) yn *Pedigree of the Family of Wynne, of Peniarth in the County of Merioneth* (London, 1872). Aelod o dylwyth pwerus y Geraldines ydoedd. Geilw Syr William Betham, Ulster-King-at-Arms, ef yn fab ' John Fitz Thomas Fitz Maurice Fitz Gerald de Windsor the first Lord of Decies and Desmond,' Yr oedd Gerald (Fitz Walter) de Windsor yn gwnstabl castell Penfro ac yn fyw yn 1108; ei wraig ef oedd [Nest](#), merch [Rhys ap Tewdwr](#). Tybiai [Robert Vaughan](#), Hengwrt (gweler Pen. MS. 6), i Osbwrn ddyfod i Gymru tua'r flwyddyn 1237 - nage, rai blynyddoedd yn ddiweddarach na hynny, meddai [W. W. E. Wynne](#). Y mae prawf iddo gael ei drethu ym mhlwyf Llanaber (eithr nid treth blwyfol) yn y flwyddyn 1293 neu 1294; awgryma [Wynne](#) hefyd ei bod yn bosibl fod a fynnai ef rywbeth ag adeiladu eglwys Llanaber.

### Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

Nodwyd y ffynonellau yn yr erthygl

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

